

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfathrebu'r Cynulliad

Pecyn ymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfathrebu'r Cynulliad

Pecyn ymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r cyhoedd.....	1
Sylwadau cyffredinol ac argymhellion.....	3
Holiadur ar bapur.....	4
Holiadur ar-lein.....	6
Gwe-sgyrsiau	8
Cyfarfod pwyllgor cyhoeddus a gynhelir yn allanol	10
Grwpiau ffocws.....	12
Ymweld â safle.....	14
Caffi'r byd	16
Grŵp cyfeirio	18
Tystiolaeth fideo	22
Tystiolaeth ffotograffig	24
Gweithdai.....	26
Cyfryngau cymdeithasol: Twitter	28
Cyfryngau cymdeithasol: Facebook	30
Cyfryngau cymdeithasol: blogiau	32
Cyhoeddiadau esboniadol.....	34
Cylchlythyrau.....	36
Gwibrwydweithio	38
Rhwydweithio o amgylch byrddau	40


Pecyn cymorth ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu pecyn cymorth o ddulliau a gaiff ei ddefnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wella cysylltiadau â chynulleidfaoedd targed a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Cafodd y pecyn cymorth ei seilio ar ymchwil a wnaed i arfer da o ran gwahanol ddulliau o gyfathrebu ac ymgysylltu gan sefydliadau fel PeopleandParticipation.net, Cyfranogaeth Cymru, y Gronfa Loteri Fawr a'r Sefydliad Cysylltiadau Cyhoeddus Siartredig.

Caiff y pecyn cymorth hwn ei ddefnyddio gan swyddogion yn y Cynulliad Cenedlaethol wrth gynllunio gweithgareddau i hyrwyddo busnes y Cynulliad, ac ymholiadau gan bwyllgorau. Mae'n amlinellu dulliau y gall tîm Cyfathrebu'r Cynulliad eu rhoi ar waith i hyrwyddo, ymgysylltu a chasglu tystiolaeth.

Caiff sesiynau gwerthuso eu cynnal gan swyddogion ar ddiwedd pob prosiect a hynny ar sail ymateb y cyfranogwyr. Diben y broses werthuso fydd cael hyd i gryfderau a gwendidau'r broses a'r dulliau a ddefnyddiwyd. Caiff y sylwadau a'r argymhellion a wnaed yn ystod y sesiynau gwerthuso eu cynnwys wedyn yn adrannau perthynas y pecyn cymorth ar gyfer y rhai a fydd yn ei ddefnyddio yn y dyfodol.



Sylwadau cyffredinol ac argymhellion

Mae'r dudalen hon yn rhestru nifer o sylwadau ac argymhellion a gododd yn rheolaidd mewn sesiynau gwerthuso. Nid ydynt yn ymwneud yn benodol ag unrhyw un math o weithgaredd ymgysylltu, ond maent yn egwyddorion y dylid eu hystyried ar ddechrau'r broses;

- Mae'n bwysig cynllunio'n gynnar yn y broses i sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu bodloni
- Dylid cytuno'n gyflym ar gynulleidfaeod a'r dull gorau i'w ddefnyddio i sicrhau bod cymaint o amser â phosibl i gysylltu ag unigolion a grwpiau a'u galluogi i gymryd rhan mewn sesiynau.
- Yn gyffredinol, manteisio ar weithgareddau a drefnwyd eisoes gan randdeiliaid neu grwpiau unigol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o weithio, oherwydd bod ganddynt gysylltiadau agosach â'r gynulleidfa darged ac, yn gyffredinol, mae niferoedd eithaf da yn mynychu eu digwyddiadau/cyfarfodydd felly mae cynulleidfa barod ar gael. Mae hefyd yn golygu bod costau megis llogi lleoliad gryn dipyn yn is
- Mae'n hanfodol ein bod yn trafod dulliau ymgynghori â chyrrff cynrychioliadol, a/neu sampl o'r gynulleidfa darged cyn cwblhau cynlluniau. Dylid eu defnyddio fel seinfwrdd i weld pa mor addas yw'r cwestiynau a'r dulliau ymgysylltu ac i godi ymwybyddiaeth o faterion posibl a allai godi, a sut i fynd i'r afael â nhw
- Dylid dewis y dull o ymgysylltu ar sail yr adnoddau sydd ar gael a pha mor hawdd fydd hi i'r gynulleidfa darged gymryd rhan
- Efallai na fydd angen i'r pwyllgor weithredu fel un bob amser a gallai weithredu'n fwy hyblyg gan ofyn i aelodau unigol gynrychioli'r pwyllgor mewn gwahanol leoliadau lle cynhelir digwyddiadau, er enghraifft (yn eu rhanbarthau/etholaethau o bosibl) yn ystod y cyfnod ymgynghori
- Dylid gofyn i bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau ymgynghori a ydynt yn fodlon i'w manylion gael eu defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, blogiau ac ati, a gofalu eu bod yn gwybod am unrhyw ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi.
- Mae'n hanfodol cael adborth gan gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu'n gwella o ran eu cynllunio a'u rhoi ar waith
- Byddwn yn awyddus i siarad ag amrywiaeth o grwpiau ar nifer o adegau ac am wahanol faterion; felly mae'n bwysig rheoli'r berthynas hirdymor honno
- Rhaid ystyried sut y byddwn yn rhoi adborth i gyfranogwyr, gan esbonio sut y mae'r hyn a ddywedwyd wedi effeithio ar drafodion ac yn esbonio'r penderfyniadau terfynol a wnaed.

Holiadur ar bapur

Disgrifiad a diben

Defnyddir holiaduron i ymchwilio drwy gasglu ymatebion i gwestiynau penodol. Fel arfer, bydd holiaduron yn casglu data penodol a fydd yn darparu ystadegau, ond gellir eu defnyddio hefyd i gasglu sylwadau.

Mae holiaduron yn cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth benodol gan bobl am bynciau penodol.

Mae angen ystyried y cydbwysedd rhwng cwestiynau penagored a rhai caeedig. Bydd gofyn llawer o gwestiynau penagored yn cael effaith fawr ar faint o ddata y bydd angen ei ddadansoddi ac felly mae'n ei gwneud yn broses hirach. Gellid ystyried cyfyngu ar nifer y llythrennau mewn cwestiynau penagored yn y dyfodol i annog pobl i roi atebion mwy cryno.

Cynulleidfa

Gall unrhyw un ymateb os ydynt yn gallu cael copi o'r holiadur. Dylid gwneud y math hwn o waith ymgynghori ochr yn ochr â dulliau eraill, megis holiadur ar-lein.

Dylid cynllunio holiaduron ar gyfer cynulleidfa benodol. Lle bo'n briodol, gellid paratoi cyfres o holiaduron ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd; er enghraifft, holiadur sy'n hawdd ei ddarllen, fersiynau i bobl ifanc ac ati.

Costau

Cymharol isel. Mae'r dulliau dosbarthu'n bwysig a dylid eu hystyried cyn penderfynu defnyddio hwn fel dull ymgynghori.

Gofynion o ran amser

Dylid caniatáu amser i:

- gytuno ar gynnwys drafft yr holiadur, ei gynllunio a'i argraffu (un wythnos);
- dylunio holiaduron ar wahân ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd os yw hynny'n briodol;
- treialu'r holiaduron (tri diwrnod);
- hysbysebu'r ymgynghoriad;
- caniatáu i'r cyhoedd ymateb; a
- dadansoddi'r sylwadau (tri i bedwar diwrnod)

Cryfderau

Mae'n caniatáu i nifer fawr o bobl gyfrannu

Mae'n gallu cynnwys pobl sy'n annhebygol o ymateb i ddulliau ymgysylltu traddodiadol

Gall pobl gyfrannu'n ddiennw

Mae'n rhoi llais cyfartal i'r holl gyfranogwyr

Mae'n defnyddio cwestiynau penodol, felly mae'r canlyniadau'n haws i'w ddadansoddi ac mae'r ymatebion yn fwy penodol

Gwendidau

Llawysgrifen annarllenadwy

Nid yw'n cynnwys pobl nad ydynt yn gallu cael copi o'r holiadur/darparu ymatebion ysgrifenedig

Efallai y bydd angen cynnal gweithdy i sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall yr hyn sydd ei angen

Heb ddulliau dosbarthu effeithiol, mae nifer yr ymatebion yn debygol o fod yn isel

Os na chaiff cwestiynau eu paratoi'n ofalus, gall holiaduron greu gormod o ddeunydd a data i'w dadansoddi

Holiadur ar-lein

Disgrifiad a diben

Mae holiaduron ar-lein yn cael eu hyrwyddo ar-lein i gasglu ymatebion i gwestiynau penodol a chânt eu defnyddio i roi cyfle i nifer fawr o bobl wneud sylwadau ar faterion penodol. Y diben yw casglu gwybodaeth benodol gan bobl ac mae'n wybodaeth ystadegol fel arfer.

Mae angen ystyried y cydbwysedd rhwng cwestiynau penagored a rhai caeedig. Bydd gofyn llawer o gwestiynau penagored yn cael effaith fawr ar faint o ddata y bydd angen ei ddadansoddi ac felly mae'n ei gwneud yn broses hirach. Gellid ystyried cyfyngu ar nifer y llythrennau mewn cwestiynau penagored yn y dyfodol i annog pobl i roi atebion mwy cryno.

Cynulleidfa

Mae holiaduron ar-lein wedi'u hanelu at gynulleidfa ar-lein ac felly dylai'r dull hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â dulliau eraill, megis holiaduron ar bapur er mwyn sicrhau bod pobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwrwyd yn gallu cymryd rhan hefyd.

Mae'n bosibl y gellir cynhyrchu mwy o ymatebion drwy ddod o hyd i gymunedau ar-lein arbenigol a chysylltu â nhw. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â grwpiau a sefydliadau perthnasol sydd â chysylltiadau agos â'r cynulleidfaoedd rydych yn awyddus i glywed ganddynt. Dylid hyrwyddo'r math yma o holiaduron oddi ar lein hefyd, drwy gysylltu â grwpiau perthnasol dros y ffôn a drwy'r e-bost i geisio dosbarthu lincs yr arolwg yn ehangach. Mae Twitter a Facebook yn ffyrdd da o ddod o hyd i grwpiau ar-lein a fforymau ar-lein arbenigol.

Costau

Costau isel iawn neu dim costau o gwbl.

– Gofynion o ran amser

Dylid caniatáu amser i:

- gytuno ar gynnwys drafft yr holiadur, ei gynllunio a'i argraffu (un wythnos);
- dylunio holiaduron ar wahân ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd os yw hynny'n briodol;
- profi'r holiaduron (tri diwrnod);
- hysbysebu'r ymgynghoriad, a dod o hyd i gymunedau ar-lein;
- caniatáu i'r cyhoedd ymateb; a
- dadansoddi'r sylwadau (tri diwrnod)

Cryfderau

Mae'n caniatáu i nifer fawr o bobl gyfrannu

Mae'n gallu cynnwys pobl sy'n annhebygol o ymateb i ddulliau ymgysylltu traddodiadol

Gall pobl gyfrannu'n ddiennw

Mae'n rhoi llais cyfartal i'r holl gyfranogwyr

Mae'n defnyddio cwestiynau penodol felly mae'r canlyniadau'n haws i'w dadansoddi ac mae'r ymatebion yn fwy penodol.

Dim costau argraffu

Dim costau dosbarthu

Gwendidau

Nid all pobl gymryd rhan os nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwyd

Os na chaiff ymgynghoriadau ar-lein eu cynllunio'n ofalus, gallant arwain at sefyllfa lle mae gormod o ddeunydd yn cael ei gynhyrchu

Gall unrhyw gymhlethdod canfyddedig, megis cofrestru, atal rhai rhag cymryd rhan

Gwe-sgyrsiau

Disgrifiad a diben

Trafodaethau a gynhelir ar-lein yw gwe-sgyrsiau a chânt eu cynnal gyda grŵp bach o gyfranogwyr a ddewiswyd o flaen llaw ac sy'n cael enw defnyddiwr unigryw a chyfrinair. Mae gwe-sgyrsiau fel arfer yn para am awr ac yn cael eu cynnal ar amser a bennwyd o flaen llaw. Fel arfer, bydd cymedrolwr yn bresennol a fydd yn gwirio cwestiynau a sylwadau cyn caniatáu iddynt gael eu postio, yn ogystal â hwylusydd.

Gall unrhyw un ymuno â thrafodaeth os bydd ganddynt fynediad i'r rhyngwyd a chyfrifiadur/dyfais symudol.

Maent yn aml yn cael eu defnyddio i hybu trafodaeth a dadl rhwng grŵp o randdeiliaid ac aelod(au) o'r pwyllgor a/neu swyddogion. Maent yn tueddu i gael eu defnyddio fel modd llai ffurfiol o ymgynghori. Maent yn cael eu cynnal mewn 'amser real' sy'n galluogi cyfranogwyr i gael mwy o gysylltiad personol â'r aelod neu'r swyddog. Mae'n bosibl cael trawsgrifiad o'r cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth i gyfeirio ato.

Cynulleidfa

Gellir dod o hyd i gyfranogwyr drwy gysylltu â sefydliadau cynrychioliadol a drwy wahodd pobl i gymryd rhan ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fel canllaw, dylid ystyried mai rhwng 6 ac 8 o gyfranogwyr yw'n nifer fwyaf addas. Gall unrhyw un gymryd rhan mewn gwe-sgwrs gan gynnwys rhanddeiliaid, cyrff cynrychioliadol a'r cyhoedd.

Costau

Cost isel iawn neu dim cost o gwbl.

Gofynion o ran amser

- Fel arfer, byddwn yn disgwyl i we-sgwrs bara am tuag awr.
- Byddai angen amser i sefydlu'r we-sgwrs, gan gynnwys paratoi deunyddiau (fel pynciau i'w trafod), cymorth TG a gwahodd cyfranogwyr.
- Byddai angen i amrywiaeth o staff fod yn bresennol ar gyfer y we-sgwrs i gefnogi'r aelod neu'r swyddog, cadw llygad ar y sylwadau a chofnodi a dadansoddi'r sylwadau.

Cryfderau

Mae'n gallu cynnwys pobl sy'n annhebygol o ymateb i ddulliau ymgysylltu traddodiadol

Gall pobl aros yn ddiennw, a theimlo'n fwy cyfforddus, o bosibl, wrth drafod pynciau sensitif

Y gallu i siarad ag unigolion mewn gwahanol leoliadau ar yr un pryd

Mae'n defnyddio cwestiynau penodol, felly mae'r canlyniadau'n haws i'w ddadansoddi ac mae'r ymatebion yn fwy penodol

Ychydig iawn o adnoddau sydd eu hangen

Dim costau

Gall unrhyw un gymryd rhan mewn unrhyw le os ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwyd, ac os oes ganddynt gyfrifiadur/dyfais symudol neu dabled.

Gwendidau

Nid all pobl gymryd rhan os nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwyd

Rhaid i'r dechnoleg weithio'n iawn

Ni fydd gosodiadau diogelwch yn caniatáu i lawer o bobl gymryd rhan drwy ddefnyddio'u cyfrifiaduron gwaith

Cyfarfod pwyllgor cyhoeddus a gynhelir yn allanol

Disgrifiad a diben

Gall gyfarfod cyhoeddus allanol fod yn gyfarfod pwyllgor ffurfiol neu anffurfiol sy'n digwydd mewn man cyhoeddus, oddi ar ystâd y sefydliad.

Mae cyfarfodydd cyhoeddus allanol yn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol weld y sefydliad, drwy gyfrwng y pwyllgor, wrth ei waith yn eu hardal. Mae'n caniatáu iddynt glywed y dystiolaeth a roddir am bwnc a allai fod o ddiddordeb arbennig i bobl leol.

Cynulleidfa

Fel arfer, bydd unigolion neu gynrychiolwyr o sefydliadau sydd â diddordeb yn y pwnc yn dod i gyfarfodydd cyhoeddus allanol. Dylai'r gymuned leol, ysgolion a grwpiau lleol hefyd gael gwybod am y cyfarfod pwyllgor. Os oes modd, dylai'r cyfarfod allanol drafod materion sy'n bwysig i grwpiau ac unigolion o'r ardal.

Costau

Gall costau gynnwys: amser staff, costau teithio staff, llogi lleoliad, arlwyo a threfniadau ategol.

Gofynion o ran amser

- Fel arfer, cynhelir cyfarfod cyhoeddus allanol dros gyfnod o ddwy i dair awr.
- Byddai angen amser i drefnu'r cyfarfod, gan gynnwys llogi lleoliad/arlwyo a chyhoeddusrwydd.
- Byddai angen i amrywiaeth o staff fod yn bresennol yn y cyfarfod i ddarparu gwasanaeth croesawu. Fel arall, gellir cynnal y cyfarfodydd hyn mewn lleoliadau ac ar adegau sydd a drefnwyd gan y gynulleidfa darged at ddibenion eraill ac nid ar gyfer ymgynghoriad y pwyllgor. Os felly, bydd angen amser i weithio gyda rhwydweithiau, sefydliadau cynrychioliadol a grwpiau unigol i gael gwybodaeth am amseroedd a lleoliad y cyfarfodydd hyn a drefnwyd eisoes.
- Hefyd, bydd angen amser i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo er mwyn i sefydliadau a rhwydweithiau eu dosbarthu i'w haelodau/ cynulleidfaoedd.

Cryfderau

Gall y cyhoedd wyllo trafodion y pwyllgor yn fyw, heb orfod teithio i Gaerdydd

Mae'n llawer haws denu cynulleidfa os bydd cyfarfodydd cyhoeddus allanol yn cael eu cynnal yn yr un lleoliad ac ar yr un amser ag y bydd y gynulleidfa darged yn cyfarfod yn rheolaidd

Gall y Pwyllgor ymweld ag ardal sy'n gysylltiedig â'r pwnc a gaiff ei drafod yn y cyfarfod

Gwendidau

Cyfyngiadau o ran pryd y gall y digwyddiadau hyn gael eu cynnal oherwydd amserlenni tyn ac ymrwymïadau

Gall gymryd llawer o amser i ddenu cynulleidfa

Grwpiau ffocws

Disgrifiad a diben

Mae grwpiau ffocws yn gyfle i grŵp bach o bobl gael trafodaeth dan arweiniad.

Sesiynau un-tro yw'r rhain fel arfer er y gellir cynnal nifer ohonynt ar yr un pryd mewn gwahanol leoliadau.

Mae grwpiau ffocws yn caniatáu i bwnc penodol gael ei drafod a cheir gwell dealltwriaeth o agweddau'r rhai sy'n ymateb, eu teimladau a'u buddiannau o fewn cyd-destun y grŵp.

Cynulleidfa

Caiff aelodau o grŵp ffocws eu dewis fel arfer i geisio sicrhau cynrychiolaeth gytbwys.

Gellir eu dewis i fod yn gynrychioliadol o ddemograffeg gyffredinol yr ardal/ pwnc, neu gellir eu dewis yn benodol fel cynrychiolwyr grwpiau penodol, neu unigolion sydd â diddordeb mewn pwnc penodol.

Mae cynnal gweithdy gyda grwpiau sy'n bod eisoes yn ffordd gymharol hawdd o gael barn grwpiau perthnasol sydd â diddordeb mewn pwnc penodol a chael cynulleidfa barod.

Fel arfer, mae rhwng chwech a deuddeg o gyfranogwyr mewn grŵp ffocws. Mae hyn yn golygu bod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio barn, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu.

Costau

Gall gostau gynnwys:

- Amser staff a theithio;
- Llogi adeilad;
- Arlwyo; a
- Threfniadau teithio/ cynhaliath ar gyfer cyfranogwyr.

Gofynion o ran amser

Gall grŵp ffocws bara rhwng 45 munud a dwy awr.

- Byddai angen amser i sefydlu'r grŵp ffocws, gan gynnwys dod o hyd i gyfranogwyr a sicrhau eu bod yn dod.
- Llogi lleoliad/ arlwyo a pharatoi adnoddau.
- Byddai angen staff i fod yn bresennol yn y grwpiau ffocws i hwyluso'r trafodion, cofnodi sylwadau a'u dadansoddi. Mae'n bosibl y bydd angen paratoi'r cyfranogwyr o flaen llaw.
- Mae angen amser i weithio gyda rhwydweithiau a chyrrff cynrychioliadol i gael mynediad i grwpiau perthnasol, a dod o hyd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw ledled Cymru.
- Mae modd arbed cryn dipyn o amser a chostau pan gynhelir grwpiau ffocws mewn cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw

Cryfderau

Mae'n annog defnyddwyr gwasanaethau a phobl nad ydynt yn ymgysylltu drwy ddulliau traddodiadol i gyfrannu

Gall arwain at well dealltwriaeth o'r pwnc dan sylw

Mae'n hybu trafodaethau manwl

Mae'n defnyddio cwestiynau penodol, felly mae'r canlyniadau yn haws i'w ddadansoddi

Mae'n creu amgylchedd sy'n annog pobl i drafod a dadlau ac mae'n caniatáu iddynt ehangu ar y pwyntiau a godir yn hytrach na rhoi atebion un gair.

Mae'n haws denu cynulleidfaoedd drwy fynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw. Mae hyn yn gost effeithiol hefyd.

Gwendidau

Mae angen amser paratoi ac mae angen i staff fod yn bresennol. Yn ddelfrydol un i hwyluso'r gwaith ac un arall i gymryd nodiadau.

Gall y grŵp gael ei reoli gan gyfranogwyr cryfach gan greu anghydbwysedd yn y drafodaeth.

Gall cyfranogwyr deimlo'n nerfus ynghylch mynegi barn mewn grŵp o gyfoedion

Ymweld â safle

Disgrifiad a diben

Mae aelodau'r pwyllgor yn ymgymryd â chyfres o ymweliadau â grwpiau/ sefydliadau/ lleoliadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad.

Diben yr ymweliadau fyddai cyfarfod â phobl y mae materion allweddol yn effeithio arnynt. Gellir nodi'r prif faterion a gaiff eu codi yn ystod yr ymweliadau hyn a'u cynnwys yn y dystiolaeth.

Cynulleidfa

Gellir targedu cynulleidfa, gan ddibynnu ar destun yr ymgynghoriad.

Costau

Amser staff a chostau teithio;

Gofynion o ran amser

- Byddai angen amser i drefnu ymweliad, a sicrhau bod cyfranogwyr yn dod.
- Byddai angen i staff fod yn brsenol yn ystod yr ymweliad i nodi unrhyw sylwadau a'u dadansoddi.

Cryfderau

Gall Aelodau weld effaith problem a chael profiad ohoni.

Gall Aelodau siarad yn uniongyrchol ag arbenigwyr ar bwnc penodol

Gall cyfranogwyr siarad ag aelodau mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n gyfforddus

Gwendidau

Cyfyngiadau o ran pryd y gall y digwyddiadau hyn gael eu cynnal oherwydd amserlenni tynn



Caffi'r byd

Disgrifiad a diben

Cyfle i drafod mewn amgylchedd anffurfiol yw Caffi'r Byd, lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhannu profiadau ac yn trafod materion mewn grwpiau bach. Bydd cyfranogwyr yn trafod y mater dan sylw o amgylch eu bwrdd a byddant yn symud i fwrdd newydd yn rheolaidd i drafod pwnc gwahanol. Bydd arweinydd y bwrdd yn aros yno drwy gydol y trafodaethau ac yn rhoi crynodeb o'r sgwrs flaenorol i'r cyfranogwyr newydd wrth iddynt gyrraedd. Drwy symud cyfranogwyr o gwmpas yr ystafell, bydd syniadau o'r byrddau eraill yn effeithio ar sgysiau bob bwrdd. Ar ddiwedd y broses, bydd y prif syniadau yn cael eu crynhoi mewn sesiwn lawn.

Mae digwyddiadau Caffi'r Byd yn ffordd effeithiol o gynhyrchu syniadau, rhannu gwybodaeth, ysgogi syniadau arloesol ac ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd go iawn.

Cynulleidfa

Gall amrywiaeth eang o gyfranogwyr fynd i Gaffi'r Byd: gan gynnwys swyddogion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd.

Costau

Mae cost digwyddiad Caffi Byd yn amrywio'n fawr. Gall gostau gynnwys:

- Amser staff a theithio;
- Llogi adeilad;
- Lluniaeth;
- Trefniadau cefnogi a hwyluso.

Gofynion o ran amser

Gall ddigwyddiad Caffi'r Byd bara rhwng un a phedair awr. Bydd angen amser i sefydlu Caffi'r Byd, gan gynnwys:

- Dod o hyd i leoliad a'i sicrhau;
- Arlwy;
- Gwahodd cyfranogwyr.

Byddai angen i staff fod yn bresennol yng Nghaffi'r Byd i gynorthwyo'r swyddogion, cofnodi'r sylwadau a dadansoddi'r sylwadau.

Cryfderau

Rhoi cyfle i glywed amrywiaeth o safbwyntiau/ syniadau mewn cyfnod byr

Gall arwain at well dealltwriaeth o'r mater

Mae'n annog defnyddwyr gwasanaethau a phobl nad ydynt yn ymgysylltu drwy ddulliau traddodiadol i gyfrannu

Gellir defnyddio cwestiynau penodol i roi ffocws mwy pendant i'r trafodaethau

Gwendidau

Nid oes llawer o amser i gynnal y trafodaethau felly nid ydynt yn fanwl iawn

Gall sylwadau fod yn anodd eu dadansoddi

Mae angen amser paratoi a threfnu i staff fod yn bresennol

Gall fod yn ailadroddus i arweinydd y bwrdd sy'n gorfod trafod yr un pynciau drwy gydol y digwyddiad

Grŵp cyfeirio

Disgrifiad a diben

Yn draddodiadol, mae grwpiau cyfeirio'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n dod ynghyd fel pwyllgor i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae angen i'r grŵp gael gwybodaeth berthnasol a gall gyfarfod yn rheolaidd dros gyfnod go hir. Gellir trefnu i gynnal un grŵp cyfeirio, neu gynnal mwy nag un yr un pryd ar hyd a lled y wlad.

Gall sefydliadau allanol hwyluso grwpiau cyfeirio a dylid eu hystyried fesul achos (os bydd y testun trafod yn sensitif iawn, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys hwyluswyr allanol). Gall hwyluswyr allanol, a / neu gyrff cynrychioliadol gael eu defnyddio i ddod o hyd i gyfranogwyr.

Mae'r dull hwn yn briodol ar gyfer prosiectau hirach.

- Yn draddodiadol maent yn cael eu defnyddio i geisio cyfarwyddyd gan ddinasyddion ynghylch mater penodol neu gyfres o faterion.
- Mae'n bwysig bod cylch gwaith a chwmpas grŵp cyfeirio yn cael ei sefydlu'n gynnar, drwy bennu cylch gorchwyl i wneud hynny o bosibl.
- Mae hefyd yn bwysig iawn fod cyfranogwyr yn deall yr effaith y mae eu cyfraniad yn debygol o'i chael a hynny er mwyn rheoli disgwyliadau, ac i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r materion allweddol. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio geiriad effeithiol yn y cylch gorchwyl a drwy roi cyflwyniad/ cynnal trafodaeth ar ddechrau'r broses

Cynulleidfa

Samplau cynrychioliadol o'r gynulleidfa darged, y boblogaeth leol, cynrychiolwyr grwpiau penodol (er enghraifft, pobl hŷn) neu unigolion penodol, megis arweinwyr cymunedol.

- Mae grwpiau cyfeirio yn addas i bobl sydd â digon o amser i fod yn rhan ohonynt. Oherwydd yr ymrwymiad sylweddol o ran amser, mae'n anochel y bydd llawer yn methu cymryd rhan
- Tua 10 o bobl yw'r nifer ddelfrydol mewn grŵp o'r fath. Os bydd cryn dipyn mwy na hyn, bydd yn anodd i bawb gael lleisio barn; os bydd llai na hyn, mae'n bosibl y bydd profiad ac arbenigedd yn brin
- Mae'n bosibl y bydd cynulleidfaoedd yn dod o bell ac agos, felly dylid cynnal trafodaethau i benderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer y cyfarfodydd. Gellir defnyddio cynadleddau fideo hefyd, er argymhellir bod cyfranogwyr yn bresennol yn gorfforol yn y cyfarfodydd cyntaf i feithrin perthynas dda rhwng y cyfranogwyr.
- Gan ddibynnu ar natur a chefnidir y cyfranogwyr, efallai y bydd angen cynhyrchu deunyddiau mewn fformat symlach. Er enghraifft, rhifo pwyntiau bwled, ac enwi sefydliadau a grwpiau drwy'r papur briffio yn hytrach na dim ond ar y dechrau

Costau

Gall gostau gynnwys:

- Amser staff a theithio;
- Llogi adeilad;
- Arlwyo
- Trefniadau teithio/ cynhaliaeth ar gyfer cyfranogwyr.

Mae defnyddio sefydliad allanol i hwyluso cyfarfodydd yn gallu bod yn ddrud iawn.

Gofynion o ran amser

Yn ddelfrydol, mae angen tri mis o leiaf i sefydlu grŵp cyfeirio, gan gynnwys sicrhau bod cyfranogwyr yn dod, penderfynu ar gylch gorchwyl ac ati. Yn ddelfrydol, mae angen wyth wythnos o rybudd cyn cynnal cyfarfod neu ddigwyddiad ar gyfer grŵp cyfeirio er mwyn gwneud trefniadau fel llogi lleoliad/ arlwyo a pharatoi adnoddau. Byddai angen i staff fod yn bresennol yn y cyfarfodydd i hwyluso'r trafodion, cofnodi sylwadau a'u dadansoddi. Mae'n bosibl y bydd angen paratoi'r cyfranogwyr o flaen llaw hefyd.

- Efallai y bydd nifer y cyfarfodydd yn amrywio, ond mae'n ymddangos bod pump o gyfarfodydd yn ganllaw da i roi digon o gyfle i bobl gyfrannu, heb iddo fod yn ormod o ymrwymiad amser.
- Dylai'r cyfarfodydd cynnar fod yn weddol agos at ei gilydd wrth i'r grŵp ddod i adnabod ei gilydd
- Dylai'r cyfarfodydd bara tua thair awr i roi digon o gyfle i gyfranogwyr drafod materion yn fanwl, ond ni ddylai bara mwy na thair awr gan y gall hynny amharu ar allu'r cyfranogwyr i ganolbwyntio - mae'n bosibl y bydd rhannu'r grŵp yn ddau, i edrych ar wahanol faterion, yn ffordd o sicrhau bod y grwpiau'n defnyddio'u hamser yn effeithiol.
- Caiff effaith sylweddol ar amser staff. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth aelod o staff ychwanegol i ymdrin â'r trefniadau teithio, cymryd nodiadau, paratoi sesiynau briffio a nodiadau ac yn y blaen
- I sicrhau cysondeb a chywirdeb dylid gofalu mai'r unigolyn/ unigolion sy'n cymryd nodiadau mewn cyfarfodydd sydd hefyd yn paratoi'r adroddiad terfynol

Cryfderau

Mae'n annog defnyddwyr gwasanaethau a phobl nad ydynt yn ymgysylltu drwy ddulliau traddodiadol i gymryd rhan

Mae'n darparu safbwynt ansoddol, sy'n canolbwyntio ar bobl, gan gyfiawnhau prosiect/ ymholiad

Mae hwyluswyr allanol yn ychwanegu safbwynt gwrthrychol ac annibyniaeth i'r grŵp, yn ogystal â dealltwriaeth o'r pwnc

Gall hwyluswyr allanol fod yn ddefnyddiol wrth drafod mater sensitif iawn, gan eu bod yn fwy tebygol o gael profiad o ymdrin â materion ac amgylchiadau o'r fath na swyddogion y Cynulliad, a gall helpu i sicrhau bod cyfranogwyr yn gwneud y cyfraniad gorau posibl

Gwendidau

Mae angen amser paratoi a threfnu i nifer o staff fod yn bresennol.

Gall y grŵp gael ei reoli gan gyfranogwyr cryfach gan greu anghydbwysedd yn y drafodaeth.

Gall gyfranogwyr deimlo'n nerfus ynghylch mynegi barn mewn grŵp o'u cyfoedion

Mae dod o hyd i gyfranogwyr da, gydag amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau, yn hynod o bwysig i sicrhau llwyddiant cyffredinol y grŵp

Mae'r ymrwymiad amser sylweddol yn golygu y bydd nifer fawr o bobl yn methu cymryd rhan

Gallai cael gormod o bobl yn y grŵp cyfeirio lesteirio'r trafodion



Tystiolaeth fideo

Disgrifiad a diben

Mae tystiolaeth fideo yn broses greadigol sy'n galluogi cyfranogwyr i archwilio pwnc penodol ac adrodd eu stori/ rhoi tystiolaeth. Gellir ffilmio'r cyfweiliadau gan ddefnyddio offer ffilmio proffesiynol; fodd bynnag, gall hyn hefyd gael ei wneud gan ddefnyddio ffonau clyfar a dyfeisiau tabled.

Y nod yw casglu safbwyntiau a barn gan unigolion neu grwpiau bach iawn o bobl. Mae'n bwysig ystyried lle y byddwch yn ffilmio fel nad oes anawsterau'n codi o ran y sain a'r goleuo, a all ddifetha ansawdd y fideo.

Cynulleidfa

Mae tystiolaeth fideo yn ddull sy'n caniatáu i unrhyw un i ymateb. Y cyhoedd yn gyffredinol a/ neu ddefnyddwyr gwasanaeth fyddai'r gynulleidfa fel arfer - hynny yw, pobl sydd heb gefndir polisi. Mae trefnu i siarad â phobl a threfnu dyddiadau ac amseroedd ymlaen llaw yn fwy effeithiol o lawer na chyrraedd lleoliad yn ddirybudd a cheisio siarad ag aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda iawn gyda grwpiau nad oes ganddynt amser i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws/ digwyddiadau e.e. busnesau bach.

Costau

Isel:

- os yw'r offer ffilmio sydd ei angen ar gael yn barod.
- amser staff a theithio

Rhad ac am ddim:

- Gellir gofyn i grwpiau hefyd gyflwyno fideos gan ddefnyddio'u hoffer eu hunain.

Gofynion o ran amser

- Dylid rhoi digon o amser i hysbysebu'r ymgynghoriad a chaniatáu i'r cyhoedd ymateb, os ydynt yn cyflwyno'u fideos eu hunain.
- Mae angen trefnu i staff fod yn bresennol ac amser paratoi.
- Byddai angen amser i ddadansoddi a golygu'r fideos (yn fras, tua 20 munud i olygu pob cyfweiliad a diwrnod i olygu'r holl gynnwys a'i droi'n becyn fideo).

Cryfderau

Mae'n gallu cynnwys pobl sy'n annhebygol o ymateb i ddulliau ymgysylltu traddodiadol

Gall roi tystiolaeth go iawn, weledol ac anecdotaidd am y mater i'r pwyllgor

Mae'n gyfleus iawn i bobl gymryd rhan yn y broses hon. Gall pobl lle a phryd y maent am gymryd rhan yn y broses

Mae'n ffordd dda o gael barn pobl a chreu argraff

Defnyddir cwestiynau penodol, felly mae'r canlyniadau'n haws i'w ddadansoddi

Gwendidau

Mae'n cymryd llawer o amser i olygu fideos

Mae llawer o gostau cysylltiedig os nad oes gennych yr offer eisoes

Mae'n bosibl na fydd pawb yn gyfforddus yn siarad ar fideo. Mae'n well cofnodi clipiau sain yn unig os nad yw cyfranwyr yn dymuno ymddangos ar gamera. Gellir hefyd roi cyfeiriad e-bost i bobl ei ddefnyddio i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Ystyriwch hawlfraint cerddoriaeth wrth ofyn i bobl gyflwyno'u fideos eu hunain. Efallai y bydd rhai grwpiau'n defnyddio cerddoriaeth nad oes ganddynt yr hawlfraint i'w rhannu ar-lein, felly byddai'n rhaid dangos y fideo heb y gerddoriaeth

Nid yw'n bosibl ffilmio ym mhob amgylchedd oherwydd ystyriaethau sain a goleuo

Tystiolaeth ffotograffig

Disgrifiad a diben

Mae tystiolaeth ffotograffig yn rhoi cyfle i gyfranogwyr i archwilio pwnc penodol ac adrodd eu stori neu roi eu tystiolaeth drwy ffotograffau.

Gellir defnyddio ffotograffau i dynnu sylw at bwnc penodol mewn cymuned.

Cynulleidfa

Mae tystiolaeth ffotograffig yn ddull sy'n caniatáu i unrhyw un ymateb.

Costau

Isel:

- os yw'r offer sydd ei angen ar gael yn barod.

Rhad ac am ddim:

- Gellir gofyn i grwpiau gyflwyno lluniau gan ddefnyddio eu hoffer eu hunain.

Gofynion o ran amser

- Dylid rhoi digon o amser i hysbysebu'r ymgynghoriad a chaniatáu i'r cyhoedd ymateb.
- Byddai angen trefnu i staff fod yn bresennol ac amser paratoi.

—

Cryfderau

Mae'n caniatáu i fwy o bobl gyfrannu

Mae'n gallu cynnwys pobl sy'n annhebygol
o ymateb i ddulliau ymgysylltu traddodiadol

Gall ddarparu tystiolaeth go iawn a gweledol
am y mater i'r pwyllgor

Gwendidau

Gall fod yn anodd ei ddadansoddi

Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer pynciau
gweledol penodol iawn

Gweithdai

Disgrifiad a diben

Gellir trefnu gwahanol fathau o weithdai gan gynnwys trafodaethau a hwylusir ac a gynllunnir i hybu gwell dealltwriaeth o bwnc a / neu godi ymwybyddiaeth o sefydliad a'i weithgareddau.

Maent yn cael eu defnyddio i gasglu barn gan grwpiau penodol sydd â diddordeb yn y maes ond nad ydynt o reidrwydd am ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig. Fel arfer, bydd gweithdai'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau sy'n gallu rhoi dimensiwn ychwanegol i rai ymchwiliadau. Gellir cynllunio rhai gweithgareddau penodol i annog cyfranogwyr i archwilio pynciau trafod a chreu consensws.

Cynulleidfa

Byddai'r gweithdai'n cael eu targedu at grwpiau sydd â diddordeb penodol yn y pwnc dan sylw. Caiff aelodau'r gweithdai eu dewis fel arfer i geisio sicrhau cydbwysedd. Gellir eu dewis i adlewyrchu demograffeg gyffredinol yr ardal/ pwnc, neu gellir eu dewis yn benodol fel cynrychiolwyr grwpiau penodol, neu unigolion sydd â diddordeb mewn pwnc penodol.

Mae cynnal gweithdy gyda grwpiau sy'n bod eisoes yn ffordd gymharol hawdd o gael barn grwpiau perthnasol sydd â diddordeb mewn pwnc penodol a chael cynulleidfa barod.

Fel arfer, mae gan grwpiau ffocws rhwng chwech a deuddeg o gyfranogwyr er mwyn iddynt deimlo'n gyfforddus yn lleisio barn, ac er mwyn sicrhau bod cyfle i bawb gyfrannu.

Costau

Byddai'r costau'n cynnwys: amser staff a theithio, llogi lleoliad, lluniaeth.

Gofynion o ran amser

Gall gweithdai bara rhwng 45 munud a dwy awr. Bydd angen amser i sefydlu gweithdy, gan gynnwys:

- Sicrhau cyfranogwyr.
- Llogi lleoliad/ arlwy.
- Paratoi adnoddau

Byddai angen staff i fod yn bresennol yn y grwpiau ffocws i gofnodi sylwadau a'u dadansoddi.

Cryfderau

Yn caniatáu i grwpiau a sefydliadau ddysgu rhagor am y broses cyn cymryd rhan

Yn sicrhau ymatebion wedi'u canolbwyntio

Gall gweithgareddau mewn gweithdy fod yn ddiddorol i'r rhai sy'n cymryd rhan

Yn caniatáu trafodaeth fanwl ac agored ar y pwnc, a'r gallu i ymchwilio i'r mater a chreu consensws

Gwendidau

Yn wahanol i grwpiau ffocws, gall gymryd yn hwy i drafod ystod o bynciau

Amser i drefnu adnoddau a gweithgareddau

Cyfyngau cymdeithasol: Twitter

Disgrifiad a diben

Mae Twitter yn llwyfan microfflogio sy'n cael ei ddefnyddio i bostio lincs at wybodaeth a delweddau a lincs at leoedd eraill fel prif wefan y sefydliad, ei flog, ei dudalen Facebook, ei gyfrif Flickr ac ati.

Gellir defnyddio Twitter hefyd i ailbostio gwybodaeth a bostiwyd o ffynonellau eraill (sef 'ail-drydar'), neu gasglu gwybodaeth yn gyflym (i weld sut mae'r gwynt yn chwythu).

Gellir defnyddio Twitter at nifer o ddibenion megis hysbysu'r cyhoedd am waith y sefydliad; codi ymwybyddiaeth o faterion penodol; ateb ymholiadau cyflym gan ddilynwyr; gofyn am wybodaeth; a gellir hefyd:

- Chwilio drwy'r hashnodau perthnasol i ddod o hyd i gyfranogwyr
- Cael hyd i gyfranogwyr drwy bostio cwestiynau neu ddatganiadau'n ymwneud â'r pwnc dan sylw. Yna gellir cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n ail-drydar neu'n ateb.
- Annog pobl i lenwi holiaduron
- Gofyn i bobl gyflwyno cwestiynau ar gyfer dadleuon.

Cynulleidfa

Mae cynulleidfa benodol iawn yn dilyn y Cynulliad ar Twitter. Drwy weithio gyda sefydliadau eraill a defnyddio'u rhwydweithiau, gallwn rannu negeseuon, deunyddiau a hyrwyddo arolygon gyda chynulleidfa benodol na fyddai fel arfer yn ymgysylltu â'r Cynulliad. Drwy weithio mewn partneriaeth â gwefannau a brandiau sy'n ymwneud yn benodol â lleiafrifoedd neu gynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd, gallwn sicrhau bod ein neges yn cyrraedd y rhai rydym yn bwriadu eu targedu.

Costau

- Gellir defnyddio cyfyngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim (neu mae'r costau parhaus yn isel iawn)
- Er mwyn defnyddio cyfyngau cymdeithasol yn llwyddiannus, mae angen cynllunio ymlaen llaw a rhoi rhybudd ymlaen llaw am yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod sgysiau'n cael eu rheoli'n llwyddiannus.

Gofynion o ran amser

- Wrth weithio gyda sefydliadau ar gyfyngau cymdeithasol, yn aml bydd angen wythnos neu ddwy o rybudd arnynt i integreiddio unrhyw weithgaredd y cytunwyd arno yn eu cynlluniau cyfathrebu. Byddai'r amser hwn hefyd yn cael ei defnyddio i ddrafftio cynnwys.
- Gellir trefnu diweddariadau Twitter ymlaen llaw, sy'n caniatáu cynllunio mwy effeithlon.
- Nid yw'n bosibl cymedroli pethau y mae pobl eraill yn eu postio ar Twitter, gan eu bod yn cael eu postio ar eu cyfrifon personol eu hunain.
- Wrth ofyn am gwestiynau ar gyfer cyfarfod/ digwyddiad penodol, mae angen rhwng pedwar ac wyth wythnos i ganiatáu i bobl gyflwyno cwestiynau

Cryfderau

Mae'n ddefnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyflym

Mae'n ddefnyddiol ar gyfer casglu gwybodaeth yn gyflym (i weld sut mae'r gwynt yn chwythu)

Mae'n ddefnyddiol ar gyfer ceisio barn y cyhoedd am ddigwyddiadau cyfredol (drwy chwilio am dermau allweddol a hashnodau); gellir eu defnyddio i ddod o hyd i unigolion sydd â dylanwad allweddol mewn rhai meysydd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau neu ymchwiliadau.

Gellir ei ddefnyddio i ddod o hyd i grwpiau a sefydliadau perthnasol i weithio gyda hwy

Gwendidau

Mae'n ddull cyfathrebu 'tafladwy'; mae Tweets yn gyfyngedig o ran eu hyd ac ni ellir eu defnyddio i ennyn ymatebion cymhleth neu hir

Mae'r lle sydd ar gael i bostio gwybodaeth yn gyfyngedig

Ni ellir 'dileu' Tweets yng ngwir ystyr y gair

Cyfyngau cymdeithasol: Facebook

Disgrifiad a diben

Mae Facebook yn safle rhwydweithio cymdeithasol lle gall unigolion gysylltu â ffrindiau, sefydliadau a brandiau. Mae Facebook yn cael ei ddefnyddio i bostio lincs at wybodaeth am y Cynulliad ar lwyfannau eraill, fel gwefan y Cynulliad, tudalennau pwyllgor, blog y Cynulliad, ei gyfrif Flickr, neu Senedd TV. Mae Facebook hefyd weithiau yn cael ei ddefnyddio i bostio gwybodaeth ddefnyddiol fel dyddiadau'r toriadau, neu luniau o ddigwyddiadau Cynulliad (fel lansio adroddiadau pwyllgor, digwyddiadau'r Llywydd neu ein presenoldeb yn sioeau'r haf).

Mae Facebook yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod i'r cyhoedd am ymchwiliadau neu ymgynghoriadau sydd ar y gweill ac i bostio lincs at ddeunydd sydd eisoes ar gael ar lwyfannau eraill (gwefan y Cynulliad, blog, Senedd TV). Mae Facebook hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau a chasglu gwybodaeth fel tystiolaeth anffurfiol ar gyfer ymchwiliadau neu ymgynghoriadau.

Yn dibynnu ar y math o ymchwiliad, gellir sefydlu grŵp Facebook er mwyn annog sylwadau neu drafodaeth am bwnc.

Cynulleidfa

Mae cynulleidfa benodol iawn yn dilyn y Cynulliad ar Facebook. Drwy weithio gyda sefydliadau cysylltiedig a defnyddio eu rhwydweithiau, gallwn rannu negeseuon, deunyddiau a hyrwyddo arolygon gyda chynulleidfa benodol na fyddai fel arfer yn ymgysylltu â'r Cynulliad. Drwy weithio mewn partneriaeth â gwefannau a brandiau sy'n ymrwymo'n benodol â lleiafrifoedd neu gynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd, gallwn sicrhau bod ein neges yn cyrraedd y bobl yr ydym yn bwriadu eu targedu.

Costau

Mae'n rhad ac am ddim i ddefnyddio Facebook, ond er mwyn defnyddio'r cyfyngau cymdeithasol yn llwyddiannus, mae angen cynllunio ymlaen llaw a rhoi rhybudd ymlaen llaw am yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod sgysiau yn cael eu rheoli'n llwyddiannus.

Gofynion o ran amser

- Wrth weithio gyda sefydliadau partner ar gyfyngau cymdeithasol bydd angen wythnos neu ddwy o rybudd arnynt yn aml i integreiddio unrhyw weithgaredd y cytunwyd arno yn eu cynlluniau cyfathrebu. Byddai'r amser hwn hefyd yn cael ei defnyddio i ddrafftio cynnwys.
- Gellir trefnu diweddariadau Facebook ymlaen llaw, sy'n caniatáu cynllunio mwy effeithlon.
- Nid yw'n bosibl cymedroli pethau y mae pobl eraill yn postio ar Facebook gan eu bod yn cael eu postio ar eu cyfrifon personol eu hunain.
- Wrth ofyn am gwestiynau ar gyfer cyfarfod/ digwyddiad penodol, mae angen rhwng pedwar ac wyth wythnos i ganiatáu i bobl gyflwyno cwestiynau

Cryfderau

Mae'n fwy hyblyg o ran postio gwybodaeth

Mae'n ddefnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyflym

Gwendidau

Mae'r gynulleidfa y gallwn ei chyrraedd yn gyfyngedig (maent yn tueddu i fod yn bobl sydd eisoes yn ymgysylltu â'r Cynulliad neu'n weithredol yn wleidyddol)

Nid yw'n caniatáu i bobl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd ymgysylltu â ni

Cyfryngau cymdeithasol: blogiau

Disgrifiad a diben

Storfeydd gwybodaeth ar-lein yw 'blogiau' a chânt eu defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth a hefyd i geisio adborth drwy gael sylwadau gan ddarllenwyr.

Mae blogiau yn arf llai ffurfiol y gall sefydliadau eu defnyddio i rannu gwybodaeth am eu gwaith gyda'r cyhoedd, gan ddefnyddio iaith fwy cyfeillgar a lluniau a fideos i adrodd straeon na fyddai, o bosibl, yn briodol eu cyhoeddi ar wefan mwy swyddogol ei naws.

Gellir defnyddio blogiau i roi gwybod i'r cyhoedd am ymchwiliadau neu ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt, neu fel lleoliadau anffurfiol i gasglu tystiolaeth. Gellir defnyddio blogiau hefyd i bostio sylwadau ffafriol am waith a gwblhawyd (astudiaethau achos, straeon 'newyddion da' sy'n canolbwyntio ar bobl sydd wedi llwyddo i gael y maen i'r wal drwy ymgysylltu â busnes y Cynulliad). Gall hyn gynnwys gwahodd cyfranogwr i gymryd rhan drwy ysgrifennu blog fel "golygydd gwadd".

Cynulleidfa

Mae cynnwys ar ein blog yn gysylltiedig â Facebook a Twitter, a gallwn hefyd ofyn i sefydliadau sy'n cydweithio â ni i bostio lincs at ein blog a chyfeirio eu rhwydweithiau ato.

Gellir dosbarthu blogiau hefyd ymhlith sefydliadau a rhwydweithiau partner er mwyn ehangu nifer ein darllenwyr a'r bobl rydym yn eu cyrraedd.

Costau

Mae angen adnoddau i sicrhau bod sgysiau'n cael eu rheoli'n llwyddiannus.

Gofynion o ran amser

- Amser i gytuno ar gynnwys drafft a nodi sefydliadau lle bo hynny'n berthnasol
- Gellir paratoi blogiau ymlaen llaw, sy'n caniatáu cynllunio mwy effeithlon.
- Rhaid hefyd caniatáu amser ar gyfer cyfieithu (neu wirio os ysgrifennwyd y blog yn y ddwy iaith).

Cryfderau

Mae'n llwyfan llai bygythiol ar gyfer rhannu cynnwys

Gallwn annog darllenwyr i roi sylwadau a chymryd rhan mewn trafodaeth drwy'r swyddogaeth sylwadau

Gallwn bostio cynnwys amrywiol: testun ysgrifenedig, ffotograffau, fideos

O'i hyrwyddo'n effeithiol gellir tynnu sylw gwahanol gynulleidfaoedd at waith sydd ar y gweill a/neu waith a wnaed eisoes

Gwendidau

Mae angen i flogiau gael eu tagio'n iawn i fedru chwilio drwyddynt (gan ddefnyddio peiriannau chwilio ac o fewn ein gwefan ni)

Mae angen diweddarau blogiau yn aml i gynnal diddordeb y cyhoedd yn ein gwaith ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol ohono.

Heb adnoddau i wthio a hyrwyddo, mae'r tebygolrwydd o gael sylwadau'n isel fel rheol

Cyhoeddiadau esboniadol

Disgrifiad a diben

Mae cyhoeddiadau esboniadol yn cynnwys gwahoddiadau, poster, taflenni a thafleuni i esbonio natur a chylch gorchwyl ymchwiliad pwyllgor neu ymgynghoriad.

Gallant weithredu fel deunyddiau ategol neu gyflwyniadau i weithgareddau casglu tystiolaeth eraill fel grwpiau ffocws, cyfarfodydd cyhoeddus a holiaduron. Gan amlaf, maent yn cael eu defnyddio i roi gwybodaeth am ymgynghoriadau mewn manau o ddiddordeb cyhoeddus, fel llyfrgelloedd, i annog pobl i gyfrannu'n ysgrifenedig, a gellir cynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad.

Cynulleidfa

Gellir teilwra'r deunyddiau hyn ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, o ran yr iaith a ddefnyddir a golwg a naws y cyhoeddiadau.

Gellir gosod y cyhoeddiadau hyn mewn manau cyhoeddus y mae disgwyl i'r gynulleidfa darged ymweld â nhw fel llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ati.

Costau

Maent yn cynnwys: costau dylunio ac argraffu a chostau sy'n gysylltiedig â dosbarthu.

Gofynion o ran amser

- Yr amser i gytuno ar gynnwys drafft y deunyddiau, eu dylunio a'u hargraffu.
- Yr amser i'w dosbarthu a chaniatáu i bobl ymateb

—

Cryfderau

Mae rhai pobl yn hoffi mynd â gwybodaeth gyda nhw, a threulio ychydig o amser yn edrych ar ddeunyddiau.

Mae'n fuddiol i'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhynggrwyd

Mae cynyddu'r nifer sy'n gwybod am ymgynghoriad a byddant yn fwy tebygol o gyfrannu ato

Mae'n tynnu sylw pobl sy'n mynd i'r un lleoedd at waith y sefydliad

Gwendidau

Byddai angen sefydlu dulliau dosbarthu i wneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r cyhoeddiadau

Cylchlythyrau

Disgrifiad a diben

Mae cylchlythyr yn gyhoeddiad a gaiff ei ddsbarthu yn rheolaidd sydd fel arfer am un prif bwnc sydd o ddiddordeb i'w danysgrifwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hyn yn golygu anfon cynnwys i sefydliadau perthnasol sy'n dosbarthu cylchlythyrau i'w haelodau.

Gellir defnyddio cylchlythyrau i godi ymwybyddiaeth o ymgynghoriadau a gaiff eu cynnal yn y dyfodol, sydd ar y gweill neu sydd wedi'u cwblhau er mwyn annog pobl i ymateb.

Cynulleidfa

Fel arfer, bydd gan danysgrifwyr ddiddordeb penodol iawn mewn pwnc. Bydd cynulleidfaedd yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y cylchlythyr ei hun, a pha sefydliad sy'n ei gynhyrchu.

Costau

Mae rhai cylchlythyrau yn codi tâl ar gyfer deunydd. Ni fyddai'r rhan fwyaf o sefydliadau'n codi tâl ar gyfer rhoi cynnwys yn eu cylchlythyrau.

Gofynion o ran amser

- Amser i gytuno ar gynnwys drafft y cylchlythyrau hyn
- Amser i ddod o hyd i sefydliadau perthnasol ar gyfer y prosiectau penodol
- Rhaid hefyd caniatáu amser ar gyfer cyfieithu (neu wirio os ysgrifennwyd y blog yn y ddwy iaith).

—
Cryfderau

Mae'n ffordd dda o hyrwyddo gwybodaeth i gynulleidfaoedd arbenigol

Mae'n cynyddu'r nifer sy'n gwybod am ymgynghoriad

Gellir sicrhau ei fod yn gylchlythyr sy'n ymdrin â materion penodol

Mae'n cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y pwnc er nad ydynt o reidrwydd yn dilyn y sefydliad

Gwendidau

Gall fod yn anodd nodi canlyniadau pendant

Gwibrwydweithio

Disgrifiad a diben

Gellir gwahodd sefydliadau perthnasol, grwpiau o ddefnyddwyr neu unigolion i siarad yn uniongyrchol ag aelodau a/neu swyddogion. Caiff tablau eu gosod mewn cylch o amgylch yr ystafell a bydd yr aelod neu'r unigolyn yn ymweld â phob bwrdd yn ei dro i drafod am amser penodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r naill ochr a'r llall drafod y pynciau sydd bwysicaf iddyn nhw.

Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn rhoi llwyfan i'r cyfranogwyr gyfarfod â rhanddeiliaid perthnasol, dysgu rhagor am y maes a chael gwybod pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol. Gall y digwyddiadau hyn hefyd gyfrannu at waith cwmpasu'r pwyllgorau.

Cynulleidfa

Rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y pwnc neu brofiad ohono.

Costau

Os caiff ei gynnal mewn lleoliad allanol, gallai'r gost gynnwys llogi lle, lluniaeth, teithio etc.

Gofynion o ran amser

- Llogi lle
- Trefnu arlwyo a gwahoddiadau
- Denu cyfranogwyr

—

Cryfderau

Mae'r fformat agored yn caniatáu i'r rhanddeiliaid ac aelodau/swyddogion y pwyllgor ryngweithio mwy'n bersonol

Gall sefydliadau baratoi ymlaen llaw, sy'n ychwanegu gwerth at y trafodaethau .

Gwendidau

Gall fod yn anodd cael hyd i le addas

Gall fod yn anodd i'r cyfranogwyr siarad am dros awr.

Rhwydweithio o amgylch byrddau

Disgrifiad a diben

Gellir gwahodd sefydliadau perthnasol, grwpiau o ddefnyddwyr neu unigolion i ddod i siarad yn uniongyrchol ag aelodau a/neu swyddogion. Caiff byrddau eu trefnu mewn cylch o amgylch yr ystafell. Yna, bydd aelodau'r pwyllgor yn ymweld â phob bwrdd yn ei dros am amser penodol. O amgylch pob bwrdd bydd cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau tebyg i'w gilydd. Mae hyn yn wahanol i wibrwydweithio gan y bydd nifer o randdeiliaid sy'n cynrychioli cyrff gwahanol ar bob bwrdd, a bydd gan y grŵp fwy o amser i drafod. Gall mwy o randdeiliaid gymryd rhan yn y math hwn o ddigwyddiad na mewn digwyddiad gwibdeithio.

Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn rhoi llwyfan i'r cyfranogwyr gyfarfod â rhanddeiliaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth perthnasol ac i ddysgu rhagor am y pwnc dan sylw.

Cynulleidfa

Rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y pwnc neu brofiad ohono. Gall fod yn briodol rhannu'r cyfranogwyr yn grwpiau perthnasol er mwyn trafod pynciau cyffredin o amgylch yr un bwrdd.

Costau

- Os caiff ei gynnal mewn lleoliad allanol, gallai'r gost gynnwys llogi lle, lluniaeth, teithio etc.

Gofynion o ran amser

- Mae angen amser i:
- Logi lle
- Trefnu arlwyyo a gwahoddiadau
- Denu cyfranogwyr

Cryfderau

Mae'r fformat agored yn caniatáu i'r rhanddeiliaid ac aelodau/swyddogion y pwyllgor ryngweithio mwy'n bersonol

Gall sefydliadau baratoi ymlaen llaw, sy'n ychwanegu gwerth at y trafodaethau.

Mae'r math hwn o rwydweithio wedi'i deilwra mwy tuag at drafod ac ystyried pynciau'n fwy trylwyr, gan gynnwys pynciau pobl eraill o amgylch y bwrdd, ac nid dim ond y pwnc sydd o ddiddordeb i'r unigolyn, fel sy'n digwydd mewn digwyddiadau gwibrwydweithio.

Gall mwy o randdeiliaid gymryd rhan yn y math hwn o ddigwyddiad na mewn digwyddiad gwibrwydweithio traddodiadol

Gwendidau

Gall fod yn anodd cael hyd i le addas

Gall rhai pobl neu sefydliadau deimlo nad ydynt yn cael rhwydweithio'n uniongyrchol i'r un graddau ag y gallant mewn digwyddiad rhwydweithio traddodiadol

Mae angen hwyluso'r digwyddiad yn effeithiol i sicrhau bod pawb o amgylch y bwrdd yn cael cyfle i gyfrannu

Gall fod yn anodd grwpio gwahanol sefydliadau o amgylch byrddau penodol

Gall denu defnyddwyr gwasanaeth ddibynnu ar allu cyrff cynrychioliadol i ddenu cynulleidfa